YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:
34/2016
DYDDIAD CYHOEDDI
16/03/2016

# Gwerthuso Rhaglen Beilot y Gronfa Blaenoriaethau Sector

## Crynodeb Gweithredol

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cynlluniwyd Rhaglen Beilot y Gronfa Blaenoriaethau Sector Llywodraeth Cymru (SPFP) i sicrhau fod darparwyr hyfforddiant yn datblygu strategaethau hyfforddi arloesol oedd yn fwy aliniedig ag anghenion y sector ac anghenion busnes. Er mwyn cyflawni hyn, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gontractio'r Cynghorau Sgiliau Sector (SSCs) i ddatblygu prosiectau hyfforddiant a datblygu i ddiwallu anghenion busnes.

1.2 Comisiynwyd York Consulting LLP (YCL) i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r SPFP. Roedd y gwerthusiad yn ystyried effeithiolrwydd y gweithredu a'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen beilot fesul cam, ac i ba raddau roedd y targedau perfformio yn cael eu bodloni. Roedd y fethodoleg yn cynnwys: adolygiad o adroddiadau gwerthuso prosiect SSC, arolwg dysgwyr ar-lein (wnaeth gynhyrchu 70 o ymatebion), arolwg gweithwyr (wnaeth gynhyrchu 51 o ymatebion), a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid. Gwnaed argymhellion i helpu i lywio unrhyw ddatblygu gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.

## 2. Canfyddiadau Allweddol

2.1 Datblygodd y Cynghorau Sgiliau Sector resymeg glir ar gyfer cyflwyno'r prosiect yn seiliedig ar ymgynghoriadau gyda chyflogwyr ac o Ymchwil Marchnad Gwaith. Roedd y nifer o gymwysterau a phrentisiaethau a ddatblygwyd drwy SPFP yn dystiolaeth o'r galw parhaus a, petai'n cael ei brif ffrydio, oedd yn debygol o barhau i gael eu cyflwyno gan ddarparwyr. Roedd nifer o fframweithiau prentisiaethau lle mae galw yn llai tebygol o barhau heb fuddsoddiad sylweddol pellach o amser a gweithgareddau hyrwyddo gan ddarparwyr a heb gael cyfraniad ariannol sylweddol

gan gyflogwyr.

2.2 Ar y cyfan, fe wnaeth y rhan fwyaf o brosiectau'r Cynghorau Sgiliau Sector berfformio'n dda. Roedd rhai enghreifftiau o arloesi a chafwyd tystiolaeth o hyn drwy ddatblygu cymwysterau prentisiaeth newydd, llwybrau newydd o ddilyniant a drwy ddefnyddio Apiau .

2.3 Fe wnaeth rhai Cynghorau Sgiliau Sector ei chael yn anodd cysylltu â chyflogwyr, ac arweiniodd hyn at cyflawniadau is na'r targed. Cafodd nifer fach o Gynghorau Sgiliau Sector broblemau eithaf sylweddol yn y cyfnodau cynnar. O ganlyniad, ail drafodwyd rhai targedau ac ail ddiffiniwyd cyllidebau yn gyffredinol er mwyn adlewyrchu'n agosach y gwariant a ragwelir.

2.4 Ni wnaeth rhai dysgwyr a chyflogwyr werthfawrogi'r elfen o sgiliau hanfodol yn y fframwaith prentisiaeth am nad oedd yn ddigon cyd-destunol.

2.5 Fe wnaeth arolwg o ddysgwyr lwyddo i gael 70 o ymatebion. Roedd y gyfradd ymateb isel yn cyfyngu ar ba raddau y gellid ystyried y canfyddiadau i fod yn gynrychioladol o'r boblogaeth o ddysgwyr ar SPFP. Fodd bynnag, o ystyried y dystiolaeth feintiol a'r dystiolaeth ansoddol gyda'i gilydd, roedd tystiolaeth bod dysgwyr yn teimlo'n fwy hyderus am eu galluoedd, yn fwy brwdfrydig am ddysgu yn gyffredinol, ac yn teimlo'n fwy optimistaidd am eu rhagolygon gyrfa. Nododd tri chwarter o'r dysgwyr yn yr arolwg eu bod wedi datblygu sgiliau sy'n benodol i swydd a dywedodd dros ddwy ran o dair o ddysgwyr eu bod yn gallu cymhwyso eu dysgu i'w gwaith.

2.6 Roedd llawer o adroddiadau gwerthuso prosiectau yn tystiolaethi i lefelau da o ddysgwyr yn ymgysylltu â lefelau uchel o fodlonrwydd yn y cynnwys ac ansawdd y ddarpariaeth ddysgu. Roedd rhai dysgwyr yn feirniadol o'r cyflwyniad o sgiliau hanfodol ac yn adrodd nad oeddent yn teimlo ei fod yn berthnasol i'w dysgu.

2.7 Dangosodd tystiolaeth feintiol ac ansoddol fod cyflogwyr yn cydnabod manteision yr hyfforddiant. Roedd y rhan fwyaf o gyflogwyr yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a dyfynnwyd mwy o gapasiti drwy recriwtio prentisiaid fel mantais, yn enwedig ar gyfer Mentrau Bach a Chanolig (SME). Roedd tystiolaeth bod y prentisiaid oedd naill ai wedi parhau eu cyflogaeth ar ôl cwblhau'r hyfforddiant neu wedi dod o hyd i gyflogaeth yn rhywle arall o ganlyniad i'r hyfforddiant. Yn ogystal, roedd hyfforddiant pwrpasol a chyrsiau hyfforddiant byr, a dderbyniwyd gan lawer o gyflogwyr, yn cael ei werthfawrogi'n fawr yn enwedig gan fod hyn yn diwallu anghenion cyflogwyr penodol.

2.8 Rhoddwyd y Gwasanaeth Eiriolaeth ar waith i ddarparu cymorth ac arweiniad i Gynghorau Sgiliau Sector yn ystod y cam dylunio prosiect ac i helpu i nodi gwybodaeth am y farchnad waith i gefnogi tystiolaeth o angen. Cafodd y gwasanaeth ei aildrefnu yn dilyn yr argymhellion o adroddiad Cam 1 ac mae'n ymddangos bod y strwythur symlach wedi bod yn effeithiol. Adroddodd eiriolwyr iddynt fod yn llwyddiannus wrth ddatblygu perthynas gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector, darparu arweiniad a gwybodaeth am gaffael, gwybodaeth am y farchnad waith a chysylltu â darparwyr i hyrwyddo ymwybyddiaeth o brosiectau SPFP. Nid oedd pob Cyngor Sgiliau Sector yn teimlo'r angen am y gwasanaeth a thuag at y diwedd, fe wnaeth rhai fynegi pryderon bod y gwasanaeth yn canolbwyntio gormod

ar fonitro canlyniadau prosiectau ac yn darparu ychydig o werth ychwanegol.

2.9 Roedd yn ofynnol i brosiectau a gyllidwyd dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ddangos ymgysylltiad ac effaith ar Themâu Trawsbynciol (CCTs) mewn perthynas â'r agenda cydraddoldeb a chynaliadwyedd amgylcheddol. Nifer fach iawn o'r Cynghorau Sgiliau Sector mae'n ymddangos oedd wedi ystyried effaith eu prosiect ar y themâu trawsbynciol, a chofnodwyd hyn yn yr adroddiadau gwerthuso. Fodd bynnag roedd lefel canolbwyntio ar themâu trawsbynciol gan y Cynghorau Sgiliau Sector yn isel iawn, ac roedd rhoi adroddiad am hyn drwy werthusiadau prosiectau unigol yn fach iawn.

2.10 Cyflwynwyd hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddarparwyr lle oedd hyn yn bosibl. Er ni chasglwyd niferoedd manwl gywir. Roedd peth tystiolaeth bod dysgwyr oedd eisiau cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, wedi methu gwneud hynny. Er bod darparwyr hyfforddiant yn datgan y gallent gyflwyno yn y Gymraeg, nid oedd ganddynt y gallu i ymateb i geisiadau unigol am gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg lle nad yw dysgwyr eraill yn siarad Cymraeg.

2.11 Roedd perfformiad cyffredinol y rhaglen SPFP yn agos at, ond ychydig yn is na'r targedau diwygiedig , gan gynnwys: 99 y cant o gyfranogwyr; a 95 y cant o gyflogwyr a gynorthwyir. Roedd y perfformiad a fesurwyd yn erbyn y targedau gwreiddiol yn fwy cymedrol, gyda 84 y cant o gyfranogwyr yn cymryd rhan. Llwyddwyd i gyrraedd tua 94 y cant o'r gwariant diwygiedig a gynlluniwyd a chyrhaeddwyd 76 y cant o'r gwariant gwreiddiol.

2.12 Roedd y perfformiad yn erbyn targed Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar gyfer cyflwyno yn is na'r targed gwreiddiol (88 y cant o'r targed ar gyfer cyfranogwyr a 73 y cant o'r targed ar gyfer cyflogwyr a gynorthwyir / a gefnogir). Fe wnaeth cyflwyno mewn ardaloedd Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop ragori ar y dangosydd allbwn ar gyfer cymryd rhan gan Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig - BME (141 y cant) ond yn is na'r dangosyddion allbwn ar gyfer cyfranogwyr hŷn (77 y cant) a chyfranogwyr benywaidd (67 y cant). Roedd gwariant Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn uwch (95 y cant) nag ar gyfer rhai nad ydynt yn ESF (92 y cant).

2.13 Roedd ymgysylltu â busnesau ar draws Cymru yn gytbwys; roedd cyflwyno yn ddaearyddol yn fras yn unol â'r boblogaeth o gyflogwyr a gweithwyr.

## 3. Casgliadau

3.1 Mae tystiolaeth i'r rhaglen hon gael effaith gadarnhaol yn y tri maes fel y diffinnir yn amcanion gwreiddiol y rhaglen: 1) i 'ddylunio, datblygu a phrofi hyfforddi arloesol'; 2) i 'wella lefel yr ymgysylltu â busnesau mewn hyfforddiant' a 3) i 'estyn gallu'r darparwr'.

3.2 Daethom i'r casgliad bod y rhan fwyaf o Gynghorau Sgiliau Sector wedi perfformio'n dda, wedi ysgogi galw a datblygu atebion hyfforddi i ddiwallu anghenion busnes, er eiddynt ei chael yn anodd cwrdd â chyfeintiau'r targed uchelgeisiol gwreiddiol ar gyfer cyflwyno.

3.3 Yr hyn oedd yn amlwg o siarad gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector a darparwyr oedd natur fregus yr isadeiledd a arweinir gan y cyflogwyr a gafodd ei dreialu drwy'r SPFP: roedd llawer o Gynghorau Sgiliau Sector gyda llai o gynhwysedd, yn enwedig yng Nghymru, a chollwyd arbenigedd eisoes am fod llai o gyllid o Gomisiwn y Deyrnas Unedig dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES).

# 4. Argymhellion

4.1 Fe chwaraeodd y Cynghorau Sgiliau Sector rôl allweddol wrth ddarparu gwybodaeth am y farchnad waith (LMI) a darpariaeth hyfforddiant i gwrdd ag anghenion sectorau. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu rôl y Cynghorau Sgiliau Sector mewn unrhyw raglen blaenoriaethau sector sy'n ystyried eu gallu yn y dyfodol yng Nghymru i weithredu i fanyleb debyg.

4.2 Mae angen i Gynghorau Sgiliau Sector ystyried canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wrth ddylunio gwerthusiadau o'u prosiectau i sicrhau ei fod yn cynnwys pob amod a nodir yn y canllaw. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ansawdd adroddiadau gwerthuso cyn llofnodi taliadau terfynol.

4.3 Mae'n ofynnol i bob prosiect a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ddangos ymgysylltu â'r Themâu Trawsbynciol. Felly, mae angen i Lywodraeth Cymru roi cyfeiriad clir i'r Cynghorau Sgiliau Sector (a holl weithredwyr rheoli prosiectau eraill) i adrodd yn glir ar ymgysylltu yn y Themâu Trawsbynciol wrth roi adroddiad yn y dyfodol.

4.4 Mae angen i rai darparwyr wella strategaethau ar gyfer cyflwyno sgiliau hanfodol yn eu cyd-destun, yn enwedig mewn prentisiaethau gyda chyfranogwyr sy'n oedolion, er mwyn osgoi i ddysgwyr weld sgiliau hanfodol fel rhai sydd ar wahân neu'n llai gwerthfawr i ddysgu arall.

4.5 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y dylai cyfrifoldeb dros ymgysylltu â chyflogwyr gael ei fframio mewn unrhyw brosiectau tebyg yn y dyfodol. Cafodd ymgysylltu â chyflogwyr effaith ar gyflymder cyflwyno'r prosiect ac ar faint a gyrhaeddwyd yn y diwedd. Mae, felly, yn elfen hollbwysig wrth helpu prosiectau o'r fath i gyrraedd eu targedau

4.6 Er mwyn helpu i ddeall i ba raddau y cyflwynwyd darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, dylid sicrhau bod data ar niferoedd y dysgwyr a dderbyniodd addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu dal yn y data monitro rhaglenni.

Adroddiad awduron:
Louise Starks, York Consulting Ltd.
Philip Wilson, York Consulting Ltd.

Adroddiad ymchwil llawn: Gwerthuso o'r Rhaglen Beilot y Gronfa Blaenoriaethau Sector

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Faye Gracey
Is-Adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: faye.gracey@wales.gsi.gov.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978-1-4734-6305-9